sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Adroddiad Amrywiaeth yn Ofcom 2020/21 a Bwlch Cyflog 2020/21

Rydym yn croesawu ymatebion mewn fformatau heblaw print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydeinig

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2021

# Cynnwys

**Adran**

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

Mae Ofcom yn sicrhau bod pobl yn cael y gorau o'u gwasanaethau band eang, ffôn cartref a symudol lle bynnag y maen nhw yn y DU. Rydym yn monitro safonau ar y teledu a'r radio. Rydym hefyd yn goruchwylio'r gwasanaeth post cyffredinol, yn gofalu am y tonnau awyr a ddefnyddir gan ddyfeisiau di-wifr, ac yn helpu i sicrhau nad yw pobl yn cael eu twyllo a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag arferion gwael.

Rydym wedi gosod disgwyliadau newydd ar gwmnïau telathrebu o ran cefnogi defnyddwyr agored i niwed ac incwm is. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gosod rheolau mwy clir i sicrhau bod teledu ar gael i bobl sydd â nam ar eu clyw neu ar eu golwg.

Rydym wedi ymgymryd yn ddiweddar â rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos, ac yn paratoi i ymgymryd â phwerau newydd i sicrhau bywyd mwy diogel ar-lein i bawb. Mae diogelu defnyddwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Er mwyn i ni wneud ein gwaith yn effeithiol i bawb yn y DU – ar draws ein gwledydd, ein rhanbarthau a’n cymunedau, ac i bobl o bob oedran a chefndir – mae'n rhaid i Ofcom ei hun adlewyrchu’r DU fel y mae heddiw.

Yn Ofcom rydym yn benderfynol o **wneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiad o fewn ein sefydliad** ac yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Mae'r rhain yn hanfodol i gyflawni ein diben: sicrhau bod cyfathrebiadau’n gweithio i bawb.

## Strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad newydd

Ym mis Ionawr 2021, bu i ni gyhoeddi Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad newydd ar gyfer 2021-2026. Rydym yn gosod nodau mwy ymestynnol i sicrhau cydbwysedd gwell o ran rhyw ac ethnigrwydd ar lefelau uwch a tharged newydd i wella cynrychiolaeth pobl anabl yn Ofcom. Rydym yn ymrwymedig i wneud ein byrddau a phwyllgorau cynghori yn wirioneddol gynrychioliadol o'r DU. Ein nod yw cyrraedd pob un o’r targedau hyn erbyn 2026.

Mae ein targedau wedi'u cyfeirio gan ddata yn ein hadroddiad Amrywiaeth yn Ofcom 2019/2020, ynghyd â thystiolaeth arall gan gynnwys ein harolygon o gydweithwyr a gweithio gyda'n naw grŵp rhwydwaith gweithwyr.

Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer y math o sefydliad yr ydym eisiau bod, a'r meysydd y byddwn yn rhoi ffocws penodol iddynt. Rydym am i Ofcom gael:

- gweithlu gwirioneddol amrywiol;
- diwylliant naturiol gynhwysol;
- prosesau, systemau a pholisïau sy’n deg;
- cydweithwyr sy’n cymryd cyfrifoldeb personol dros amrywiaeth a chynhwysiad;
- arweinwyr sy’n fodelau rôl; a
- chysylltiadau cryfach â’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Byddwn yn meithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod ganddynt lais ac y gallant fod nhw eu hunain yn y gwaith. Nid yw hyn yn golygu ein bod ni’n cytuno

drwy'r amser. Mae'n golygu ein bod yn gwrando ar ein gilydd, yn ceisio ac yn gosod her ac yn trin ein gilydd â phroffesiynoldeb, parch a charedigrwydd.

Disgwyliwn gael ein barnu yn erbyn ein nodau, felly byddwn yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd rydym yn ei wneud tuag at ein nodau.

## Cael ein dwyn i gyfrif

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi cyfansoddiad cyffredinol ein gweithlu yn ogystal â'r deilliannau i grwpiau penodol o weithwyr, o geiswyr gwaith i staff newydd i'r rhai sy'n penderfynu symud i gyflogwr newydd. Rydym hefyd yn edrych yn fanwl ar ein data bwlch cyflog ym mis Mawrth 2021.

Dyma'r adroddiad cyntaf o dan y strategaeth newydd, sy'n golygu mai'r data hwn yw'r waelodlin. Mae data yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â rhai o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[1] ond mae hefyd yn cynnwys gweithwyr rhan-amser, nodwedd nad yw wedi'i gwarchod o dan y Ddeddf. Ein nod yw cymharu ein proffiliau amrywiaeth cyffredinol â'r ffynonellau poblogaeth mwyaf diweddar a chadarn sydd ar gael.

Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn parhau i nodi ein cynnydd yn fanwl.

[1] Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.